

Tasg 1

Byd heb arian?

1. Dewiswch 5 ffaith newydd rydych chi wedi'u dysgu o'r darn.

i)

ii)

iii)

iv)

v)

2. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng **nwyddau** a **gwasanaeth**? Dewiswch enghraifft o'r darn, a meddyliwch am eich enghreifftiau eich hun.

Nwyddau

Gwasanaeth

3. Beth yw manteision cyfnewid, yn ôl yr erthygl? Nodwch dri phwynt byr:

i)

ii)

iii)

4. Beth yw prif anfantais cyfnewid?

Sut gallwch chi osgoi hyn, yn ôl yr erthygl?

5. Ydych chi wedi cyfnewid rhywbeth erioed? Beth oedd eich profiad chi?

6. Oes rhywun yn eich teulu yn/wedi cyfnewid?

7. Beth yw'r anfantais i'r wlad os yw pobl yn cyfnewid pethau yn lle defnyddio arian? Meddyliwch am yr arian sydd ei angen i redeg ysgolion, ysbytai ac ati.

8. Beth allech chi ei gyfnewid â rhywun arall? Llenwch y tabl hwn. Mae dwy enghraifft wedi'u rhoi i chi.

Nwyddau y gallwn eu cyfnewid	Sgiliau sydd gen i
Beic sy'n rhy fach i mi.	Rwy'n gallu golchi ceir.

Wedyn, cymharwch eich nwyddau a'ch sgiliau â nwyddau a sgiliau pobl eraill yn y dosbarth.

- Ydych chi'n gallu trefnu i gyfnewid nwyddau a/neu sgiliau?
- Ydych chi'n ymddiried yn y bobl rydych chi'n trefnu â nhw?
- Beth fyddai gwerth y nwyddau/sgiliau mewn arian?

9. Dewiswch y geiriau cywir i'w hysgrifennu wrth y diffiniadau. Dyma'r geiriau:

twyllo, sbeisys, cyfreithlon, trwsio, hyblyg, ymddiried

- i) credu rhywun, coelio rhywun
- ii) yn gallu newid os oes angen
- iii) perlysiâu sy'n cael eu rhoi ar fwyd
- iv) gwneud i rywun gredu rhywbeth sydd ddim yn wir
- v) gair i ddisgrifio rhywbeth sy'n iawn yn ôl y gyfraith
- vi) gwneud i rywbeth weithio eto

Ysgrifennwch dair brawddeg gan ddefnyddio rhai o'r geiriau hyn.

- i)
- ii)
- iii)

10. Ydych chi'n gyfarwydd â'r ymadrodd 'Mae'n werth ei halen'? Mae ymadrodd Saesneg tebyg: 'worth one's salt'. Beth yw ei ystyr?

Ar ôl darllen yr erthygl, o ble mae'r ymadrodd hwn wedi dod?

11. Beth yw ystyr 'gallech chi' yn Saesneg?

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'gallech chi' a 'gallwch chi' yn Gymraeg?

Edrychwch ar y frawddeg hon: *Gallech chi gynnig gwasanaeth am nwyddau.*
Beth sy'n digwydd i'r berfenw 'cynnig' ar ôl 'gallech chi'?

Dyma sut mae'r berfenw 'gallu' yn rhedeg:

Gallwn i	Gallen ni
Gallet ti	Gallech chi
Gallai ef/hi	Gallen nhw
Gallai'r plant	

Ysgrifennwch bum brawddeg gan ddefnyddio berf wahanol ym mhob un.

i)

ii)

iii)

iv)

v)